OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2010 No. 288

# Rheoliadau Cynghorau Iechyd Cymuned (Cyfansoddiad, Aelodaeth a Gweithdrefnau) (Cymru) 2010

## RHAN V

Y Bwrdd CIC

### Aelodaeth y Bwrdd CIC

**34.**—(1) Yn effeithiol o 1 Ebrill 2010 ymlaen mae i Fwrdd CIC 12 o aelodau Bwrdd y mae—

(a) wyth ohonynt yn bersonau a benodwyd yn gadeiryddion pob un o'r wyth Gyngor;

(b) un ohonynt yn un a benodwyd gan y swyddogion a gyflogir o dan reoliad 23, yn gweithredu ar y cyd;

(c) un ohonynt yn un a benodwyd i weithredu fel cadeirydd gan yr holl aelodau yn gweithredu ar y cyd drwy bleidlais bost;

(ch) un ohonynt yn un a benodwyd i weithredu fel is-gadeirydd gan yr holl aelodau yn gweithredu ar y cyd drwy bleidlais bost; a

(d) un ohonynt yn Gyfarwyddwr y Bwrdd CIC.

(2) Os digwydd mai canlyniad unrhyw fater y mae'r Bwrdd CIC yn pleidleisio arno yw pleidlais gyfartal, bydd gan Gadeirydd y Bwrdd CIC a benodwyd yn unol â pharagraff (1)(c) bleidlais fwrw.

(3) Dim ond swyddog a gyflogir o dan reoliad 23 sy'n gymwys i'w benodi o dan baragraff (1)(b).

(4) Rhaid i drefniadau priodol fod wedi eu gwneud ar gyfer dewis a phenodi (gan gynnwys tymor y penodiad) personau yn gadeirydd ac is-gadeirydd gan yr aelodau o dan baragraff (1)(c) a (ch), a rhaid i'r trefniadau hynny gymryd i ystyriaeth—

(a) yr egwyddorion a bennir o bryd i'w gilydd gan y Comisiynydd Penodiadau Cyhoeddus;

(b) y gofynion bod y dull o ddewis a phenodi aelodau yn agored a thryloyw;

(c) pan fo'n gymwys, y gofyniad am gystadleuaeth deg ac agored wrth ddewis a phenodi'r ymgeiswyr llwyddiannus.

(5) Tymor swydd aelod o'r Bwrdd a benodir o dan baragraff (1)(a) o'r rheoliad hwn yw hyd at ddwy flynedd, fel a bennir wrth wneud y penodiad, heb fod mewn unrhyw achos yn gyfnod hwy na gweddill tymor penodiad yr aelod o'r Bwrdd fel cadeirydd Cyngor o dan reoliad 15.

(6) Tymor swydd aelod o'r Bwrdd a benodir o dan baragraff (1)(b) o'r rheoliad hwn yw hyd at ddwy flynedd, fel a bennir wrth wneud y penodiad, heb fod mewn unrhyw achos yn gyfnod hwy na gweddill tymor cyflogaeth yr aelod o'r Bwrdd fel swyddog Cyngor o dan reoliad 23.

(7) Tymor swydd aelod o'r Bwrdd a benodir o dan baragraffau (1)(c) ac (ch) o'r rheoliad hwn yw hyd at ddwy flynedd.

(8) Tymor swydd y Cyfarwyddwr yw cyhyd ag y pery tymor ei gyflogaeth fel Cyfarwyddwr.